

101.01

Nodi a Datrys Problemau Ffisegol Pridd

Mae priddoedd ag adeiledd da yn hanfodol ar gyfer tyfiant glaswellt a chnydau drwy gydol y flwyddyn. Mae cywasgu, torri a chapio wyneb priddoedd yn arwain at lai o symudiad aer, draeniad gwael, tyfiant cyfyngedig gwreiddiau planhigion a defnydd cyfyngedig ar faetholion pridd a gwrtaith. Bydd hyn yn golygu tymor tyfu byrrach, llai o allu i gynnal stoc, colli maetholion, mwy o erydu pridd a glaswelltau salach a chwyn yn disodli'r rhywogaethau wedi'u hau.

Bydd y ffeithlen hon yn helpu i nodi problemau ffisegol pridd, yn awgrymu ffyrdd i'w hunioni ac yn amlinellu strategaethau rheoli i atal problemau rhaq diawvdd eto.

Dylai priddoedd sydd mewn cyflwr da fod ag adeiledd hyfriw agored, gyda rhwydwaith gwreiddiau estynedig, dim afliwio a phoblogaeth mwydod iach.

Y Problemau a'r Achosion

Cywasgiad – cywasgu sy'n lleihau gofod aer yn y pridd ar amrywiaeth o ddyfnderau gan ddibynnu ar yr achos.

Achosion

- Peiriannau trwm neu fynych yn croesi
- Sathru hirdymor gan stoc
- Amaethu dro ar ôl tro ar un dyfnder gan greu cletir aredig – *gwelir ar y dyfnder trin*
- Amaethu am y tro cyntaf dan amodau daear gwlyb
- Gorddefnyddio amaethu eilaidd
- Disbyddu deunydd organig pridd trwy amaethu'n barhaus a thraffig (tir â'r) yn arwain at adeiledd y pridd yn cwmpo

Torri wyneb – mae llusgo a llithro ar draws pridd gwlyb yn torri'r wyneb ac yn blocio mandyllau'r pridd.

Achosion

- olwynion yn llithro
- defnyddio offer amaethu neu ddril hadau yn ystod amodau anaddas

Capio wyneb pridd – blocio mandyllau pridd ar yr wyneb, gan atal y pridd rhag anadlu a pheri i ddŵr gronni ar y wyneb.

Achosion

- Sathru/pwdlo ysgafn
- Glaw trwm yn tasgu ar dir moel
- Taeniadau slyri trwm
- Gwaddodion yn cael eu gadael gan ferddwr

Nodi priddoedd sydd wedi'u cywasgu

Yn gyntaf, gwnewch dwll lle mae'n debygol bod cywasgu'n digwydd, sef wrth glwydi neu ger cafnau, er mwyn dysgu sut i nodi arwyddion. Yna gwnewch dwll mewn nifer o fannau ar draws pob cae i gael asesiad cyffredinol o gyflwr y pridd. Torrwch ddarn cyfan o bridd, maint rhaw, ac edrych am yr arwyddion cywasgu canlynol:

- nid yw'r pridd yn torri'n hawdd yn eich dwylo.
- mae'r pridd yn hollti ar ei hyd.
- nid yw gwreiddiau'r glaswellt yn mynd i lawr mwy na 6 modfedd – neu maent yn tyfu'n llorweddol.
- mae gwaddodion brown fel rhwd – yn enwedig o amgylch cerrig a gwreiddiau.
- lliwiau llwydaidd a manau neu frychni llwyd, yn dynodi amodau anaerobig neu fod y pridd yn llenwi â dŵr o dro i dro.
- newid amlwg yn adeiledd y pridd (haenen galed) ar ryw 6-8 cm neu ar y dyfnder aredig. Gellir gweld hyn yn hawdd drwy wthio blaen cylllell boced i ymyl y twll.
- ychydig o dystiolaeth neu ddim dystiolaeth o fwydod.

Uwchlaw'r ddaear, edrychwch am:-

- ferddwr
- gwawr goch i ddail glaswellt yn y gwanwyn
- rhywogaethau sy'n hoffi dŵr: brwyn, ysgall y gors, maswellt sypwraidd.
- marciau rhuddo o fannau ag wrin.

Unioni Problemau

Defnyddio aradr dyrchu - deubwrpas; mae'n creu sianel draenio ac yn torri haenen cywasgiad ddofn. Mae'n gweithio orau mewn pridd cyfoethog â chlai. Yn ddelfrydol pan fydd isbridd llaith (i ddal yr ymyl torddwr) ac uwchbridd sych i hyrwyddo malurio - amodau sy'n nodweddiadol o'r haf hwyr.

Aflonyddu ar broffil y pridd – Mae offer fferm sy'n gallu malurio haenau cywasgiad i ddyfnder aredig, neu ychydig odano, a rhyddhau adeiledd y pridd. Ceir y canlyniadau gorau yn ystod yr haf pan fydd pridd yn cracio.

Awyru uwchbridd – bydd rholer â sbigynnau neu gyllyll yn torri'r wyneb neu gywasgiad bas. Mae'n galluogi'r pridd i 'anadlu' a dŵr i dreiddio i mewn i'r pridd, gan wella'r dosbarthiad gwreiddiau a chynnal maetholion.

Calch neu ddeunydd organig – bydd yn gwella sefydlogrwydd pridd ac yn hybu gweithgarwch mwydod.

Aredig dwfn – mae'n dinistrio cletiroedd aredig sydd wedi'u creu drwy amaethu blaenorol. Ddim yn addas mewn priddoedd bas lle mae risg codi isbridd.

Gosod a chynnal draeniau – mae priddoedd gwlyb yn fwy tueddol i'w niweidio na phriddoedd sych. Mae draeniad da yn hyrwyddo 'craciau culhad' ac yn annog mwydod.

Rheoli priddoedd i atal difrod

- Cynhaliawch neu adnewyddwch draeniau teils, peipiau a thyrchol. Cadwch ffosydd draenio'n glir.
- Osgowch deithio ar bridd ac amaethu pan fydd priddoedd yn arbennig o wlyb.
- Lleihewch dir tro eilaidd - mae pob pas ychwanegol yn dinistrio agregau ac yn cynyddu dwysedd pridd.
- Tynnwch bwysau gormodol wrth aredig – peidiwch â defnyddio ond digon o falast i leihau llithro.
- Lleihewch bwysedd ar y wyneb - trwy ostwng pwysedd teiars neu ddefnyddio llwythi ysgafnach ar yr echel.
- Defnyddiwch dyniant 4WD lle bo modd i leihau olwynion yn llithro.
- Cylchdrowch gnydau gan gynnwys inddrawn, silwair/pori gymaint â phosibl.
- Osgowch bori yn ystod adegau gwlyb iawn.
- Cywirwch unrhyw ddifrod cyn gynted â phosibl. Mae priddoedd wedi'u difrodi'n casglu dŵr ac yn dirywio'n gyflym.
- Osgowch daeniadau trwm iawn o slyri/gwrtaith ar dir gwlyb, wedi'i drin.
- Ystyriwch ddefnyddio system slyri wmbilig yn hytrach na thanceri.

Mathau a Sefydlogrwydd Priddoedd

Ffactorau sy'n gwneud pridd yn sefydlog yw clai, deunydd organig a chalch. Priddoedd ansefydlog sydd fwyaf tueddol o fod â phroblemau adeiledd pridd, a chollant eu hadeiledd yn hawdd pan fydd glaw yn cronni ar y wyneb neu'n cael ei ddal yn y pridd. Mae risg penodol i briddoedd sydd â digon o gynnwys clai i'w wneud yn gleigiog a ffurfio tyweirch – ond heb ddigon o glai i roi sefydlogrwydd. Mae priddoedd fel y tywodfaen coch o amgylch Llanymddyfri â llawer o ofod aer rhwng y gronynnau tywod mawr, ond gall y gronynnau clai llai a'r rhai maint silt lenwi'r rhain yn hawdd – gall arwain at bridd cywasgedig caled iawn. Mae pob pridd cyfoethog â chlai yn dueddol o dorri ar yr wyneb mewn amodau gwlyb.

Meillion yn Gwella Adeiledd Pridd.

Mae gwaith diweddar yn IGER wedi dangos bod meillion gwyn yn gwella adeiledd pridd. Gwelwyd bod gwreiddiau meillion yn agor y pridd i fyny i lawr hyd at 12cm – gan leihau dwysedd y pridd a chynyddu symudiad aer. Mae treialon cychwynnol yn awgrymu y gall yr effeithiau hyn arwain at welliant o 20% mewn effeithlonrwydd defnyddio gwrtaith.

Rhybudd:

Gall amaethu dwfn ac ail-hadu tir pori parhaol ar bridd clai â draeniad gwael ddinistrio'r draeniad naturiol sydd wedi datblygu dros lawer o flynyddoedd. Cyfeiriwch at god Pridd DEFRA os ydych yn ystyried amaethu dwfn ac amddiffynwch nodweddiad archaeolegol. Nid yw pob pridd cywasgedig yn dangos pob un o'r arwyddion hyn a gall ffactorau eraill achosi rhai. Osgowch roi gormod o galch ar bridd mawn: anelwch am pH 5.5.